Atebodd Iesu ef: “Yn wir, yn wir, rwy’n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o’r newydd ni all weld teyrnas Dduw.”
(Ioan 3:3)

Ers rhai blynyddoedd, mae pobl wedi cyfeirio at eu hunain, ac weithiau at eraill fel Cristnogion wedi eu haileni. Fel arfer, y term sy’n cael ei ddefnyddio yn Saesneg, yw ‘born-again Christian’. Beth bynnag yw’r term a ddefnyddiwn, ac ym mha iaith bynnag, does dim math arall o wir Gristion i’w gael, yn ôl Iesu Grist.

Hanfodol

Mae’r Arglwydd Iesu yn siarad â Nicodemus, arweinydd ac athro crefyddol yn Israel. Mae yntau wedi dod at Iesu gyda’r nos i wybod mwy amdano ac am ei ddysgeidiaeth, mae’n siŵr. Dydy’r Arglwydd Iesu ddim yn gwastraffu amser cyn dweud wrtho beth yw hanfod gweld a mynd i mewn i’r deyrnas, sef yr enedigaeth newydd.

Dyma un o’r troeon hynny pan mae’r Arglwydd yn defnyddio’r gair ‘rhaid’ (adn.7). Gallwn fod yn sicr ei fod yn bwysig ac yn hanfodol, os yw Iesu’n dweud hynny. Mae’n rhaid i fywyd Duw gael ei blannu yn ein heneidiau gan yr Ysbryd Glân i ni fod yn blant Duw. Rhaid i ni gael ein geni **“nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw”** (Ioan 1:12).

Felly, nid yw dod yn Gristion yn fater o benderfyniad syml ar ein rhan ni (er fod hynny’n dod i mewn iddi hefyd). Cyn i ni wneud penderfyniad fydd yn para, rhaid i’r Ysbryd Glân effeithio ar ein meddwl. Nid mater o droi dalen newydd yw dod yn Gristion chwaith. Oni bai fod anadl Duw ar ein henaid, ni fyddwn yn meddwl o ddifrif am geisio Duw ac am alw arno trwy ymddiried yn llwyr yn Iesu Grist. Gwaith Duw yw’r aileni. Fel nad yw plentyn bach yn gwybod dim am ei eni naturiol, dim ond profi effaith yr aileni wnawn ni.

Adnewyddol

Fel mae genedigaeth plentyn yn dod â bywyd newydd i’r byd, mae’r aileni yn dod â pherson i fywyd newydd ysbrydol yng Nghrist. Mae’r Arglwydd Iesu a Phedr (1 Pedr 1:3, 23) yn defnyddio darlun y geni, tra bod yr apostol Paul yn defnyddio darlun yr atgyfodiad o farw: **“fe’n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ”** (Eff. 2:4-5).

Pan mae cathod yn cael eu geni maen nhw’n ddall am nifer o ddyddiau. Mae’n debyg nad yw plant bach yn gallu ffocysu’n glir am gyfnod chwaith. Ond

gyda'r aileni ysbrydol, un o'r canlyniadau pwysicaf yw gweld, sef gweld teyrnas Dduw. Fel y dywed W.Rhys Nicholas: *"Lle'r oeddwn gynt yn ddall rwy'n gweld yn awr."*

Gweld Duw yn gliriach

Daw'r enedigaeth newydd â golwg gliriach o gymeriad Duw. Daw person i weld mwy o gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw. Mae hyn yn gwneud person yn anghysurus o sylweddoli nad yw'n iawn yng ngolwg Duw glân a phur. Daw hefyd i sylweddoli maint cariad y Duwdod. Mae'n gweld fod Duw wedi ei garu heb iddo haeddu dim. Mae Duw wedi ei garu yn ei bechod a'i anufudd-dod a'i wrthryfel. Mae cariad anfeidrol y Gwaredwr yn dod i'w weld yn gliriach yn ei feddwl hefyd.

Gweld yr hunan

Law yn llaw â gweld Duw, daw person ailanedig i'w weld ei hunan yn gliriach. Caiff ryw olwg allanol ar ei hunan o safbwynt Duw. Gwêl rywfaint o'i hunanoldeb, ei anniolchgarwch, ei annuwioldeb. Mae'n teimlo'r angen am Dduw, a'r angen am fod yn iawn gyda Duw. Yn aml, bydd yn teimlo rhyw arswyd o'i weld ei hun yn wrthrychol. Gall hyn fod yn faich am gyfnod fel baich pererin John Bunyan.

Gweld Calfaria

Mae hefyd yn gweld ystyr ac arwyddocâd y groes mewn ffordd newydd, bersonol.

Gweld yr hwn fu'n prynu'm pardwn,
prynu pardwn maith y byd,
gweld ei wallt, a gweld ei wisgoedd,
gweld ei ruddiau'n waed i gyd!
fe, fy mhechod,
yrrodd allan ddwyfol waed. (Pantycelyn)

Gwêl, draw, fy Mrenin ar y pren,
yn niwedd dydd yn crymu ei ben;
dros f'enaid i bu hyn i gyd;
mi gofia'i boen tra bwy'n y byd. (Pantycelyn)

Mae'r Ysbryd Glân yn agor llygaid person i gysylltu ei bechod â dioddefaint y groes. Daw i weld a deall mai drosto fe yn bersonol y bu Crist farw, wrth farw dros bechodau'r byd. Wrth weld hynny, daw gobaith mawr am faddeuant a pherthynas agos â'r Arglwydd, oherwydd fod y taliad mawr wedi ei roi un waith ac am byth dros ei ddyledion i gyd, rhai'r gorffennol, presennol a'r dyfodol. Oherwydd hyn, mae'n glynu wrth Iesu fel ei Waredwr ac yn ildio iddo fel ei Arglwydd.